21 Mawrth 2018

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun NOS LUN, 26 MAWRTH 2018** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

AGENDA

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **CYFLWYNIAD YNGHYLCH EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD SIR DDINBYCH 2020**
   Derbyn cyflwyniad gan Mr Aled Siôn, Cyfarwyddwr yr Urdd Director, a Mr Iwan Vaughan Evans, Cadeirydd Pwyllgor Apêl Rhuthun, ynghylch Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i'w chynnal yn Sir Ddinbych yn 2020.

3. **CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN**
   Derbyn cyflwyniad gan y Sarjant Jonny Hill ar ffigurau troseddau diweddar.

4. **DATGAN BUDDIANNAU**
   Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.

5. **ADRODDIAD Y MAER**

6. **ADRODDIADAU'R AELODAU**

7. **COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
   Derbyn a chadarnhau bod cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Ionawr 2018 yn gywir.

8. **MATERION YN CODI**

9. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.

10. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.

11. ENWEBIADAU AR GYFER MAER A DIRPRWY FAER
Derbyn enwebiadau ar gyfer Maer a Dirprwy Faer Cyngor Tref Rhuthun ym mlwyddyn ddinesig 2018-19.

12. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYMDEITHAS RHIENI AC ATHRAWON YSGOL PEN BARRAS
Ystyried cais gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Pen Barras am £2,394 neu gyfraniad is tuag at brynu eitemau ar gyfer disgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn.

13. STATWS TREF GYFEILLGAR I FYSIAU MOETHUS I DREF RHUTHUN
Derbyn diweddariad gan y Gweithgor ac ystyried y camau nesaf.

14. DIWEDDARU CYNLLUN RHUTHUN – TREF FARCHNAD Y DYFODOL
Derbyn diweddariad gan y Gweithgor.

15. TREFNIADAU GWASANAETH SUL Y COFIO YN Y DYFODOL
Ystyried llythyr gan y Parchedig Gareth Roberts, Cadeirydd CYTUN Rhuthun, sy'n awgrymu cylchdroi'r rhai sy'n arwain y gwasanaeth.

16. COFIO CANMLWYDDIANT DIWEDD Y RHYFEL BYD CYNTAF
Ystyried gosod meinciau coffa ac eitemau coffa eraill yn Rhuthun.

17. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL
Derbyn hysbysiad am Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, yn enwedig yr adran sy'n ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned. Mae'r adroddiad llawn i'w gweld yn http://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/58592459/?skip=1&lang=cy

18. CYFARFOD CHWARTEROL CYMDEITHAS CYNGHORAU LLEOL GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU
Ystyried gwahoddiad i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru ddydd Gwener, 20 Ebrill 2018 yng ngwesty'r Royal Oak, Y Trallwng, ynghyd â chinio am £16 y pen.

19. CYTUNDEB GWASANAETHU CLOCIAU SMITH'S OF DERBY
Ystyried adnewyddu'r cytundeb gwasanaethu clociau am gyfnod o dair blynedd ar gost o £517.00 + TAW.

20. CAIS UNDEB CREDYD CAMBRIAN
Derbyn hysbysiad gan Undeb Credyd Cambrian ei fod yn bwriadu cyflwyno uchafswm o £30,000 ar falansau cyfrifon cynilo ac ystyried ymateb Cyngor Tref Rhuthun.

21. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2017/18
Derbyn hysbysiad am y cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2017/18 gan JDH Business Services.

22. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo datganiad ariannol y Swyddog Ariannol Cyfrifol am y cyfnod yn diweddu 28 Chwefror 2018.

23. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

5148	Cyngor Sir Ddinbych	Ad-daliad rhif 7 benthyciad gwaith cynnal a chadw llyn Cae Ddôl		£7,880.00
5149	Cyngor Sir Ddinbych	Cyfraniad Cyngor Tref Rhuthun tuag at flociau concrid ym maes parcio Heol y Parc		£1,000.00
5150	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5151	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
5152	Dafydd Williams	Adnewyddu'r tanysgrifiad Norton Antivirus		£39.99
D.U.	BT Business	Gwasanaethau ffôn a band eang	*	£169.02

(Mae'r eitemau wedi eu nodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy gwerth £58.17)

RHAN DAU

24. CYFLOG CLERC Y DREF

Derbyn manylion am gyflog Clerc y Dref (copi pinc).

25. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 23 Ebrill 2018 am 7pm.